

## Arian, Arian, Arian

Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn ystyried rôl 'arian' yn ein bywydau personol ac ym mywyd ein heglwysi.

Wrth agosáu at y Nadolig, bydd pwysau mawr ar rieni i wario ar y teclynnau a'r teganau diweddaraf ar gyfer eu plant, ac yn sgil hynny bydd llawer yn wynebu blwyddyn gyda biliau cardiau credyd na fydd modd eu had-dalu, fydd yn bwrw llawer i ddyledion a thrafferthion ariannol. Ers mis fe'n syrffedwyd gan hysbysebion di-baid y 'Dydd Gwener Du' – un diwrnod sydd bellach wedi troi yn fis o bwysau diddiwedd i wario ar y fargen sy'n 'gynnig rhy dda i'w wrthod'. Cofiaf y dyfyniad gan yr ymgynghorydd ariannol Dave Ramsey, "We buy things we don't need with money we don't have to impress people we don't like". Mae hyn yn swnio mor wirion, ac eto, mae'n debyg ein bod ni i gyd wedi bod yn euog o wneud hynny ar ryw adeg.

Diolchwn am waith yr elusen Gristnogol Christians Against Poverty (CAP), sy'n cynnig cymorth ymarferol ar sut i osgoi mynd i ddyled a sut i ddog allan o grafangau dyled. Mae ganddynt linell gymorth a thim o gynghorwyr arbenigol sydd wrth law i gynnig cymorth ymarferol i'r sawl sy'n cael eu hunain mewn trafferthion. Maent yn darogan y bydd mwy o bwysau arnynt nag erioed o'r blaen yn gynnar yn 2022, yn dilyn gorwario cynyddol dros gyfnod y Nadolig. Am fwy o wybodaeth am eu gwaith, ewch i wefan [www.capuk.org](http://www.capuk.org).

Fel eglwysi a Christnogion, dydyn ni ddim bob amser yn barod i sôn ryw lawer am bres ac arian. Tra mae 'na bynciau 'rhinweddol' i'w trafod – fel gweddi, darllen y Beibl, ein hymddygiad moesol ac ysbrydol, mae 'na awgrym fod trafod pres ac arian a chyfoeth yn faterol a bydol. Eto, wrth i ni ddarllen yr efengylau, fe sylwn fod gan lesu lawer iawn mwy i'w ddweud am arian a



O'r Swyddfa  
Tudalen 4

chyfoeth, a'n defnydd neu'n camddefnydd ni ohonynt, nag oedd ganddo i'w ddweud am bynciau fel gweddi, er enghraifft. O 'beidio casglu trysorau' ar ein cyfer ein hunain, o 'anwybyddu a cham-drin y tlawd', o beidio â 'gwasanaethu dau feistr', mae Iesu'n ein herio ni dro ar ôl tro i ddangos haelioni a thrugaredd.

Mae ei esiampl tra oedd ar y ddaear, a'i anogaeth i beidio â hawlio mwy na'r hyn sydd ei 'angen ar gyfer y daith', yn her wirioneddol i bob un ohonom. Yn ei ddamhegion, y cyfoethog sy'n methu cyrraedd teyrnas nefoedd, gan ddweud y byddai'n haws 'i gamel fynd drwy grau nodwydd nag i ddyn cyfoethog fynd i mewn i deyrnas nefoedd'. Tra mae pwyslais y Beibl ar beidio â rhoi ein bryd ar y pethau mae 'gwyfyn a rhwd yn difa', mae pwyslais 'cymdeithas' yn mynnu ein bod yn ceisio byw yn annibynnol ac yn ffyniannus. I Iesu, mae rhoi pwyslais ar lwyddiant materol yn dangos diffyg ffydd ac ymddiriedaeth ynddo ef, a'i allu i'n cynnal yn ysbrydol ac yn faterol.

Er dechrau gwareiddiad mae casglu a datblygu'r defnydd o arian wedi bod yn rhan o feddylfryd y ddynoliaeth. O fetelau gwerthfawr fel aur a gemau prin fel diemwntiau, maen nhw wedi bod yn symbolau o lwyddiant a grym. Roedd gwisgo sidan a lliain main, addurno'r corff â gemwaith a metelau drudfawr yn ddatganiad o lwyddiant a phwysigrwydd o ddyddiau cynnar iawn.

Yn ôl cân y grŵp Abba, 'Money, money, money', mae popeth yn ymddangos yn heulog braf ym myd y dyn cyfoethog.

Always sunny in the rich man's world.  
A-ha – all the things I could do  
If I had a little money;  
It's a rich man's world.

Eto, mae'r realiti yn wahanol iawn yn hanes cynifer. Faint o enillwyr y loteri aeth i ddigalondid mawr, yn gaeth i gyffuriau a gamblo? Bydd llawer o enwogion o fyd chwaraeon a chanu pop, sy'n gwneud eu ffortiwn mewn cyfnod byr iawn, yn aml yn colli'r cyfan ac yn chwilio am rywbeth amgenach na bywyd llawn golud a chyfoeth. Do, profwyd droeon nad yw cyfoeth yn sicrhau hapusrwydd na bodlonrwydd, a bod

O'r Llwfan  
Tudalen 5



llawer yn dyheu am fywyd mwy rhinweddol a charedig. Ychydig iawn o sylw a roddwn i hyfforddi pobl ynghylch sut i wario a buddsoddi'n ddoeth, a gwneud yn fawr o'r adnoddau sydd ganddynt, heb ei wastraffu'n afradlon fel yn hanes y mab hwnnw a wariodd holl ffortiwn ei dad.

Onid beth am ein defnydd ni o arian yn ein bywydau bob dydd? Os credwn mai Duw, creawdwr daear a nef, sy'n berchen arnom ni a phopeth a feddwn, onid yw hynny'n herio ein persbectif ar fywyd? Cyfeiriwn yn aml fod y blaned wedi ei 'hymddiried i'n gofal' dros dro. Onid yw hynny hefyd yn wir am bopeth rydyn ni'n berchen arno o fewn y blaned honno? Darllenas yn ddiweddar ddyfyniad yn dweud: petai'r deg person mwyaf cyfoethog yn y byd yn rhoi 10% o'u cyfoeth i ddileu tlodi yn y byd, byddai hynny'n ddigon i ddatrys y broblem! Mae hynny'n syfrdanol, ac efallai'n pwysleisio'r annhegwch mawr sydd yn ein byd. Ond mewn byd lle cyfeirir at arian yn nhermau miliynau, biliynau a thriiliynau, pa wahaniaeth fedr ein ceiniogau ni ei wneud? Y gwyr amdani yw y gall pob un ohonom wneud gwahaniaeth, o gymryd ein stiwardiaeth Gristnogol o ddifri.

### Cefnogi elusennau

Does dim amheuaeth nad yw nifer o elusennau wedi eu heffeithio'n ddrwg gan ddwy flynedd o bandemig a chyfnodau clo, ac yn fwyaf arbennig, elusennau llai a lleol, sy'n fwy dibynnol ar ddigwyddiadau lleol fel boreau coffi, teithiau cerdded a chyngherddau fel ffordd o godi arian. Bydd eglwysi hefyd yn cynnal nifer o gasgliadau'n flynyddol at elusennau Cristnogol, ond wrth i wasanaethau fod ar lein, a llai o gynulleidfa yn y capel, mae nifer o elusennau ar eu colled oherwydd hyn. Dyma rywbeth i swyddogion eglwysi ei ystyried efallai wrth roi trefn ar gyfrifon ar ddiwedd blwyddyn.

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Cymru a'r eglwysi yn  
codi eu llais yn COP26  
Tudalen 7

## Arian, Arian, Arian

(parhad o dudalen 1)

### Tlodi lleol a banciau bwyd

Mae'n debyg fod bywydau'r rhan fwyaf ohonom sy'n aelodau yn y capeli Cymraeg yn weddol gyfforddus. Mae eithriadau wrth gwrs, ond ar y cyfan mae ein cynulleidfaoedd yn weddol gyfforddus a ffyniannus. O'r herwydd gall fod yn anodd deall agweddau ar y tlodi enbyd sydd ar stepen ein drws erbyn hyn. Bydd rhai eglwys wedi ymdaflu i'r gwaith elusennol o redeg banciau bwyd, ac felly'n deall yn iawn yr heriau anferth sydd yna i fwydo teuluoedd sydd rywsut o dan y radar ac wedi disgyn drwy rwydi diogelwch buddiannau a nawdd. Bydd llawer o rieni sengl yn ennill cyflog rhan-amser pitw, ac yn brwydo i gynnal eu teulu, a loes calon yw clywed tystiolaeth rhieni sy'n mynd heb fwyd er mwyn bwydo'u plant. Tydi dewis rhwng bwydo'r teulu a gwresogi'r cartref ddim yn ddewis mewn gwirionedd. Her i bob un ohonom yw bod yn effro i dlodi o'n cwmpas, a meddwl am ffyrdd creadigol a charedig i helpu a chynnal baich y bregus a'r anghenus.



### Trysoryddion ein heglwys

Ers dechrau'r pandemig fe aeth llawer o eglwys i gyfarfod yn rhithiol, ac mae hynny wedi profi'n llwyddiant ysgubol yn hanes llawer. Gwelwyd cynnydd mewn niferoedd, â chynulleidfaoedd yn hoffi cyfleustra addoli ar yr aelwyd. Ond bu hynny'n dipyn o her i sawl trysorydd, a welodd y casgliadau'n lleihau ac aelodau'n anghofio am yr angen i gyfrannu. Gwyddom am sawl cylch lle bu cynnal gweinidog a gwaith yr eglwys yn her fawr o'r herwydd. Bu i ambell un gredu, gan nad oedd yr eglwys yn cyfarfod wyneb yn wyneb, nad oedd angen cyfrannu, ond mae costau cynnal eglwys yn parhau wrth gwrs. Wrth i ni nesáu at ddiwedd blwyddyn, rwy'n siŵr y bydd pob trysorydd eglwys yn ddiolchgar o dderbyn eich rhoddion, cyn cau'r llyfrau ar 2021.

### Heriau cyfrifon banc

Yn ddiweddar, mae llawer o eglwys ac elusennau wedi cael llythyrau gan fanc yr HSBC yn sôn am gostau misol o £5, a thâl o 40c am brosesu sieciau, heb sôn am godi comisiwn am dalu pres parod i mewn a hefyd wrth dynnu pres allan. Wedi blynyddoedd o ffioedd bancio am ddim, daw hyn fel tipyn o sioc.

Gyda chostau arfaethedig o oddeutu £100 i gadw cyfrif ar agor am flwyddyn, efallai y gellir edrych ar opsiynau eraill. Mae ambell gyfri ar gael ar y we sydd heb unrhyw gostau, ac ambell fanc yn dal i gynnig bancio am ddim i elusennau (ond nid oes sicrwydd o hynny chwaith yn y tymor hir). Ystyriaeth arall i sawl eglwys yw a oes modd cyfuno cyfrifon? Mae gan ambell eglwys hyd at bum cyfrif, rhwng yr ysgol Sul, clwb ieuencid, y chwirydd, cyfri'r organ, yr adeiladau, ayyb. A oes angen yr holl gyfrifon unigol hyn, tybed? Gellid arbed costau drwy greu un cyfrif ar gyfer gweithgaredd yr eglwys, gan gadw

mantolenni gwahanol er mwyn dangos lle mae'r gwariant wedi bod. O gofio cost prosesu sieciau, mae troi at gyfri bancio ar y we hefyd yn ffordd arall o arbed costau, gan dalu pregethwy'r a biliau eraill drwy BACS yn lle siec.

### Tlodi byd-eang

Mae'r eglwys wedi bod yn flaengar ynghylch ceisio dileu tlodi byd ar hyd yr amser. O eiriau proffwydol Amos yn tynnu sylw at annhegwch mawr ei gyfnod, i eiriau condemnol Iesu am y rhai sy'n gorthrymu'r tlawd, mae'r neges yn glir: nid yw Duw am weld tlodi ac anghyfiawnder yn y byd. Mae'n dyheu am ein gweld ni'n gweithio gyda'n gilydd i greu byd tecach a chyfiawn, lle mae pawb yn cael cynhaliaeth a gofal.

Diolchwn am waith mudiadau fel Cymorth Cristnogol, Oxfam, Wateraid, Achub y Plant, Tearfund, y Groes Goch ac eraill. Diolch am bob ymdrech i godi arian a hefyd i addysgu pobl y byd ym maes dileu tlodi. Cofiw'n eiriau'r ddihareb a ddefnyddiwyd fel slogan gan Gymorth Cristnogol droeon: 'Rhowch bysgodyn iddo, caiff fwyd am ddiwrnod; dysgwch ef sut i bysgota, a bydd ganddo fwyd am oes.' Tristwch, serch hynny, yw clywed pobl, gan gynnwys Cristnogion, yn gwadu gwerth cefnogi'r mwyaf bregus yn ein byd, ac mai gwell fyddai cynnal a gwella'r cyfleusterau yn ein gwlad ein hunain.

Mae geiriau Iesu yn sefyll: 'Peidiwch casglu trysorau i chi'ch hunain yn y byd yma. Mae gwyfyn a rhwd yn gallu eu difetha, ac mae lladron yn gallu dod a'u dwyn. Casglwch drysorau i chi'ch hunain yn y nefoedd – all gwyfyn a rhwd ddifetha dim byd yno, a does dim lladron yn i ddwyn dim byd. Lle bynnag mae dy drysor di y bydd dy galon di.' Rhown ein bryd ar Iesu a'r digonedd a geir ynddo ef.

## Y Parchedig Mima Morse

Magwyd y ferch fywiog, fyrlymus hon ymysg ei thylwyth niferus, yn Llangeitho, sir Aberteifi. Unig blentyn Marie a David James, y Post, oedd Mima, a'i thad yn berchen ar y cwmni bysys. Mae sawl un yn dal i gofio am arbedd a gweithgaredd Marie James yn y fro honno a'i gallu rhyfeddol i hyfforddi, i berfformio ac ysgogi cariad at fro a chenedl. Capel Llwynpïod oedd cyrchfan y Sul. Edmygai Mima ei thylwyth yn fawr a gwerthfawrogi'r fraint a gafodd o fod yn etifedd y fath gyfoeth diwylliannol a ffordd o fyw a gyflwynwyd iddi.

Hyfforddwyd hi'n athrawes a rhoddodd flas o'r hyn a gafodd, yn grefyddol a diwylliannol, ym mhob ysgol y bu'n dysgu ynddi. Roedd yn athrawes a hyfforddwr penigamp. Prifathrawes Ysgol Gynradd Gymraeg Bronllwyn, Ton Pentre, Rhondda Fawr, oedd hi ar ddiwedd ei gyrfa. Lle bynnag y bu'r teulu'n byw, câr'r capel lleol eu presenoldeb ymarferol, gan gefnogi gweinidogion ac aelodau fel ei gilydd. Elwodd sawl cymdeithas ar ei gallu a'i brwdfrydedd wrth iddi hi a'i theulu gyflwyno oriau o bleser. Roedd yn gyfaill mynwesol i lu. Cyfeiriwyd ati yn ei hangladd fel trysor ac fel perl, a dyna oedd Mima.



Yn dilyn ei hymddeoliad hi a'i phriod, Howard, yntau'n un o brifathrawon Morgannwg, symudodd y ddau o Don-teg, ger Pontypridd, i Langeitho. Ymrôdd i baratoi ei hunan at waith y weinidogaeth ac ordeiniwyd hi mewn Sasiwn ym Methlehem, Treorci, ar 1 Hydref 2003.

Ei phrifddiddordeb oedd cynnalysgolion Sul a chlybiau i'r ifanc, gan gynnwys pobl i'w chefnogi. Bu'n arbrofol ei gweithgaredd a llwyddai i ysgogi diddordeb a ffyddlondeb. Yn gefn iddi trwy'r cwbl yr oedd Howard Morse. Fe sefydlodd barti canu 'Cathod Ceitho', a ddenai famau a merched ifanc i gwmnia a chynnal nosweithiau o gwmpas yr ardal. Byddai Howard hefyd yn cynnal sesiynau i blant ar hanes lleol cyfoethog yr ardal honno. Pâr priod amryddawn oedd Mima a Howard, a gydweithiai'n llwyddiannus i greu cymuned Gristnogol, glòs. Buont yn briod am dros hanner canrif a magu tri o blant, Dafydd, Elin a Tomos. Cawsant lawenydd o groesawu chwech o wyrion.

Bu farw ar 11 Tachwedd 2021, yn 81 mlwydd oed, wedi cyfnod hir o salwch. Cynhaliwyd angladd Mima yn Salem, Ton-teg, ar 19 Tachwedd 2021 dan ofal y Parchedig Ddr Rosa Hunt gyda chymorth y Parchedigion Robert Nicholls ac Allan Pickard. Claddwyd hi yr un diwrnod ym mynwent Llwynpïod, â'r Parchedig Lona Roberts yn gweinyddu gyda chymorth y Parchedig Carwyn Arthur.

Lona Roberts



## Adfer tir ym Mlaen-y-cwm

Mewn blwyddyn a welodd gau pedair eglwys yng Nghymanfa Dwyrain Morgannwg, mae'n braf nodi fod Eglwys Blaen-y-cwm, ym mhen uchaf Rhondda Fawr, un o'r eglwysi lleiaf eu haelodaeth, wedi adennill tir a derbyn saith aelod newydd mewn un oedfa ym mis Tachwedd.

Nid diwygiad sydyn ac annisgwyl oedd hyn, gan fod rhai o'r saith wedi bod yn rhan o gymdeithas a thystiolaeth yr eglwys am flynyddoedd, ond heb roi unrhyw ystyriaeth i ffurfioli eu perthynas gyda chorff yr eglwys. Roedd eraill wedi gweld yr eglwysi lle buont yn addoli yn cau, ac wedi crwydro yma a thraw yn ddigyfeiriad, nes dod o hyd i ddiadell fechan gyda drws agored ac ewyllys i ddenu ymwelwyr. Roedd y ffaith bod Eglwys Blaen-y-cwm mor gynhwysol a chroesawgar, â pharodrwydd i ddarparu bwyd a diod i bobl unig a thlawd yn y pentref, a'u gwahodd i gyfrannu beth y gallent eu fforddio, yn arwydd arall o apêl y gynulleidfa i'r aelodau newydd hyn. Dyhead yr eglwys yw bod yn Grist yn y gymuned, mewn ffordd ddiwyll a syml.

Roedd yn agos i ddeg ar hugain o oedolion yn bresennol, yn ogystal â naw o dan 15 oed hefyd. Yr un mor arwyddocaol, nododd Geraint Davies, ysgrifennydd Blaen-y-cwm, fod hanner dwsin arall o blith y gwrandawyr yn ystyried ymaelodi hefyd â'r gynulleidfa hon. Llawenhawn, a dathlwn arwyddion o adfer tir, o leiaf yn un o'r eglwysi hyn.



Yn y llun, gwelir (o'r chwith i'r dde) Eileen Gardner, Gervaise James, Alun Clemas, Myrddin Williams, Davyna Williams, Carol Ann Davies, Denzil John (arolygwr y Gymanfa a chennad y dydd) a Merrill Davies.

## Gwedd Trydedd Wythnos yr Adfent gan Gymorth Cristnogol

“Felly, beth ddylen ni ei wneud?”  
gofynnodd y dyrfa.’

Luc 3:10

Rydym wedi edrych tuag at arweinwyr  
byd-eang

I wneud y newid angenrheidiol

Dros ffyniant y blaned

A bywyd cyflawn ar gyfer y ddynoliaeth oll.

Ar yr adeg hon o ddisgwyliad yr Adfent

Unwn gyda'r tyrfaoedd,

Y casglwyr trethi a'r milwyr,

A gofyn yr hyn ofynnid yn aml i loan:

‘Beth ddylen ni ei wneud?’

A chawn yr argraff, Dduw grasol,

Fod y dyrfa, y casglwyr trethi a'r milwyr,

Yn gwybod yn union be i'w wneud.

Doedd ymateb loan ddim yn syndod:

Byddai eu cydwybod wedi dweud wrthynt,

Ac yn y dyddiau hyn o ddisgwyl yr Adfent,

Wrth inni nesáu at stabl, yn gwyllo'r seren,

Gofynnwn eto fel rhai o'n blaen:

‘Beth ddylen ni ei wneud?’

Nid edrych yn unig at arweinwyr byd

Na disgwyl yn unig atebion systemig,

Nid cymryd dy ras yn ganiataol

Deuwn yn agos at dawlwech yr Adfent.

Yma yn nyfnder gaeaf hemisffer y gogledd

Ceisiwn bresennoldeb dy ymgnawdoliad

I'n hatgoffa ni beth ddylen ni ei wneud.


Felly, helpa ni, Dduw. Amen.

## Y Cylchgrawn Hanes 45 (2021)

Mae rhifyn diweddaraf y *Cylchgrawn Hanes* ar gael i danysgrifwyr. Ymhlith yr erthyglau y tro hwn mae trafodaeth ar ymateb Eglwys Bresbyteraidd Cymru i'r Rhyfel Byd Cyntaf a dadansoddiad o'r ymdrechion yn y cyfnod rhwng y ddau Ryfel Byd i ddod ag eglwysi Presbyteraidd dros y byd yn nes at ei gilydd. Ceir hefyd nodiadau bywgraffyddol ar rai o aelodau cylch yr emynyddes Ann Griffiths, disgrifiad o ymweliad yr efenglydd Gipsy

Smith ag Aberystwyth, a hanes sefydlu'r eglwys Bresbyteraidd gyntaf yn Birkenhead.

Mae aelodaeth y Gymdeithas Hanes yn agored i bawb o bob enwad a chefnidir. Os nad ydych yn tanysgrifio eisoes, ac yn awyddus i wneud, y tâl aelodaeth yw £8.00 y flwyddyn. Am wybodaeth bellach, cysylltwch â'r Parchg Ddr Elwyn Richards, 70 Cae Gwyn, Caernarfon LL55 1LL; e-bost: [elwyn.richards@ebcpw.cymru](mailto:elwyn.richards@ebcpw.cymru)



S4C

Sul, 19 Rhagfyr, am 7.30yh  
(ailldarlliedir y Sul canlynol am 11.30yb)

Daw'r rhaglen yr wythnos hon o Eglwys yr Holl Saint, Ystumllwynarth, wrth i ni ddathlu'r Nadolig. Cawn fwynhau perfformiadau arbennig, a darlenniadau amserol a chydganu carolau gyda'n gilydd.

Dyma gopi o gylchlythyr mis Rhagfyr:

<https://spark.adobe.com/page/QpwoYUGORAPqY/>

BBC radio  
cymru

Radio Cymru

Sul, 19 Rhagfyr – *Caniadaeth* y *Cysegr*, 7:30yb a 4:40yp.

Yr Esgob Barry Morgan a chantorion 'Yr Wyth' fydd yn cyflwyno detholiad o garolau a darlenniadau pwrpasol ar gyfer y Nadolig

Sul, 19 Rhagfyr – *Oedfa Radio Cymru*, 12:00yp

Yr Esgob Barry Morgan a chantorion 'Yr Wyth' fydd yn cyflwyno detholiad o garolau a darlenniadau pwrpasol ar gyfer y Nadolig

## O'r Swyddfa

A hithau yn nesáu at Wyl y Nadolig, yn naturiol ddigon, mi fydd yna gyfnod yn y Swyddfa sydd braidd yn wahanol i'n gwaith o ddydd i ddydd. Mi fydd hwn a'r llall yn cymryd gwyliau, ac yn cael amser i orffwys, gobeithio. Wedi dweud hynny, rydym yn diolch mai Emaniwel yw gwir orffwysfa ei bobl, a gobeithio'n wir y byddwch yn darganfod hyn wrth ddarganfod Iesu o'r newydd dros y dyddiau nesaf.

Wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn, mae ein gwaith yn parhau i newid. Rydym bellach yn defnyddio ymadroddion fel Sharepoint ac Onedrive fel rhan o'n geirfa ddyddiol, er bod hyn yn parhau i fod yn her i lawer wrth inni anfon papurau digidol allan. Ond fe ddysgwyr i ddefnyddio Zoom mewn misoedd, ac mae'n debyg, er yn araf, y bydd cyfnewid y bwndeli papur oedd yn arfer llwytho eich postmon am ddolen ar ebost i lyfrgell o bapurau rhithiol yn dod yn ffordd arferol o weithredu. Rydych wedi darllen ar dudalennau *Cenn@d* fod yr ymateb i fyw rywfaint yn y byd rhithiol yma yn amrywiol, a gwelwyd hynny gyda cyfarfodydd y Sasiwn, fel cyfarfodydd Henaduriaethau a phwyllgorau. Wedi dweud hynny, ac o ystyried ein sefyllfa ar hyn o bryd mewn perthynas â lledaeniad


y feirws, credwn ein bod wedi ymateb yn briodol. Gobeithio ein bod wedi ymateb mewn ffordd sy'n rhoi angen eraill i deimlo'n saff o flaen ein hawydd i gwrdd wyneb yn wyneb, a'n rhwystredigaeth wrth geisio sicrhau trafodaeth lawn dros y cyfrifiadur.

Mae'r flwyddyn wedi gweld sawl lansiad arwyddocaol. Lansiwyd ein hapêl 'bum mlyneddol' i Gymorth Cristnogol ym mis Medi – Hadau Gobaith, a byddwn yn ffocysu ein gwaith ar effeithiau newid hinsawdd yn Kenya a Chanolbarth America. Ystyriwch y fraint fydd yn eiddo inni, o ganol ein digon, i fod yn aberthol yn ein rhoi, ac i fod yn ddyfal yn ein dysgu am amgylchiadau pobl, ac am effeithiau ein ffordd ni o fyw yn y Gorllewin ar y ffordd y mae byw bron yn amhosibl yn y gwledydd hyn.

Yn rhyfeddol, ar yr un diwrnod yr oeddem yn lansio ein Polisi Amgylcheddol. A ninnau'n gweld, yn dilyn cynhadledd COP yn Glasgow, mai araf a hunanol ydym wrth symud i weithredu, mae ein polisi'n rhoi'r cyfle i ni weithredu yn lleol drwy symud yn gyflym i sylweddoli'r hyn sydd angen inni ei wneud. Mae'r camau rydym wedi cytuno arnynt i'w gweld ar ein gwefan ac, o ran y Gymanfa, rydym eisoes wedi cyfarfod â'n Rheolwyr Buddsoddiadau i sicrhau amserlen glir

i ddadfuiddsoddi mewn cwmnïau sy'n parhau i dynnu tanwydd ffosil o'r ddaear, neu'n araf yn rhoi camau clir i symud at strategaeth i gyfarfod â gofyn COP Paris. Mae yna gamau clir i'n heglwysi hefyd, a gobeithio y bydd yn ewyllys a chynllun yn lleol i wireddu'r rheiny.

Fel Methodistiaid da, y trydydd pen i'r lansio oedd lansio Cynllun Golud – Trysori Ffydd a Bywyd wrth fyw gyda Dementia. Eisoes, mae yna adnoddau wedi eu cynhyrchu, ac edrychwn ymlaen at ymateb da i'r sesiynau Dementia Gyfeillgar fydd yn cael eu trefnu ddechrau'r flwyddyn. Fel yn achos newid hinsawdd, ein braint yw cael gweinigogaethu a byw mewn ffordd sy'n ystyriol o angen, a'r angen hwn yn un sy'n dod yn gynyddol amlwg yn ein heglwysi, fel yn mywydau ein pobl a'n cymunedau.



Bu hefyd yn flwyddyn o golledion yn ein hanes. Mae yna unigolion dylanwadol wedi ein gadael, yn eu plith ddau o gynlywyddion y Gymanfa Gyffredinol, y Parch Cynwil Williams a'r Parch Ieuan Lloyd. Collwyd cyn-weinidogion a blaenoriaid eraill yr un modd, ac, er tristwch, daeth hanes sawl cynulleidfia i ben. Wedi nodi hyn, gwelwyd pobl newydd yn dechrau gweithio inni, yn weinidogion a gweithwyr newydd, a da oedd cael bod yn yr Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant ychydig yn ôl yn cymeradwyo tri ymgeisydd newydd fel rhai ar dir i'w hordeinio. Yn nhymor y newydd da, gweddiwn am gael gweld tymor o newydd da yn hanes gwaith Cristnogol yng Nghymru, gwaith newydd, dulliau newydd, pobl newydd, yn tystio i'r hen, hen hanes, ac yn tystio gyda'n gilydd fel eglwysi ac enwadau yn y Gymru Gymraeg.

*Meirion Morris  
Ysgrifennydd Cyffredinol  
Eglwys Bresbyteriaid Cymru*





## O'r Llwyfan

Wrth baratoi'r profleuni ar gyfer Llawlyfr Undeb Bedyddwyr Cymru 2022 mae ystadegau aelodaeth ein heglwysi yn dilyn yr un patrwm ag a sefydlwyd ers blynyddoedd bellach. Tra bo'r darlun yn ddigon digalon ar y cyfan, gyda niferoedd ein haelodau a'n heglwysi yn lleihau, mae'n hollbwysig serch hynny ein bod yn mynegi ein diolch a'n gwerthfawrogiad am yr hyn a gyflawnwyd yn wyneb Covid-19. Diolch i'r eglwysi am eu gofal dros yr aelodau ac am fod yn barod i fentro gyda dulliau digidol o addoli ac i wasanaethu ein cymunedau'n ddifflino mewn amrywiol ffyrdd.

Yn ystod y flwyddyn daeth rhai eglwysi i'r penderfyniad hynod anodd i gau eu drysau am y tro olaf, a hynny yn dilyn blynyddoedd lawer o wasanaeth ffyddlon i'r Arglwydd Iesu. Yn sicr, maent yn haeddu ein diolch cywiraf am eu gwaith dros y Deyrnas. Ar yr un pryd, testun llawenydd yw cofio am y sawl a alwyd gan Dduw yn ddiweddar i weinidogaethu yn ein plith ar draws yr enwadau. Gwyddom am bwysigrwydd chwilio am gyfleoedd newydd a gwahanol i gyflwyno'r Efyngyl gan ystyried cyd-destun ac anghenion ein cymdeithas heddiw. Nid peth hawdd yw gwneud hyn mewn cyfnod seciwlar ac ôl-Gristnogol. Deisyfwn fendith gyfoethog Duw ar y to newydd o weinidogion yn ein plith.


Hyfrydwch hefyd yw clywed am gydweithio rhyng-eglwysig fel sydd yn digwydd ar Ynys Môn ar hyn o bryd rhwng eglwysi Penuel a Moreia, Llangefni.

Dymunwn yn dda i fentrau o'r fath ac edrychwn ymlaen at ddarllen am unrhyw ddatblygiadau ar dudalennau'r *Cenn@d!* O na fyddai mwy o hyn yn digwydd ac eglwysi'n cydweithio o dan yr un to ac yn mynd ati i ddefnyddio'u hadnoddau mewn ffyrdd mwy cynaliadwy. Dyma mewn gwirionedd fyddai dymuniad y rhai a sefydlodd yr achosion cynulleidfaol o ystyried ein cyd-destun yn yr unfed ganrif ar hugain.

Pan oedd aelodaeth ein heglwysi ar gynydd a bwrlwm anghydfurfiaeth yn lledu fel tân gwyllt drwy'r wlad gwelwyd yr angen i godi adeiladau newydd, ond wrth i niferoedd ein heglwysi bellach leihau, onid synnwyr cyffredin erbyn hyn yw cydnabod mai llai o adeiladau sydd eu hangen. Nid oes raid i enwadaeth fod yn rhwystr, a gwn y byddai pob un o'r enwadau yn barod i gynorthwyo mewn unrhyw ffordd er mwyn hwyluso cydweithio o'r fath.

Yn sicr, o ran dyfodol ein heglwysi cynulleidfaol, mae'r atebyn gorwedd yn cyd-destun lleol. Nid oes modd gorfodi'r un eglwys i gydweithio ag eglwysi eraill, ond bydd hyn yn siŵr o ddigwydd fel mynegiant o awydd a dymuniad y gynulleidfa leol i annog a chefnogi tra'n ceisio grymuso'r dystiolaeth er lles y Deyrnas.

Un o'r llyfrau y bûm yn eu darllen yn ddiweddar yw cyfrol gan wraig o'r enw Susan Beaumont, *How to Lead When you Don't Know Where You're Going: Leading in a Liminal Season*. Mae'r gair 'liminal' yn anodd i'w drosi i'r Gymraeg, ond yr hyn a olyga yw ein bod yn byw mewn cyfnod



sydd yn newid, sef cyfnod trothwyol. Hynny yw, nid yw'r hen batrwm wedi llwyr ddiflannu, ond yr un pryd nid yw patrymau newydd y dyfodol yn hollol glir ychwaith! Mae fel pe baem yn bodoli rhwng dau dymor a dau gyfnod. Cyfeiria'r awdur at y profiad o fod mewn maes awyr (a hynny, wrth gwrs, cyn dyddiau Covid-19!). Wrth deithio o un wlad i'r llall mae'r maes awyr yn fan cyswllt hanfodol. Tra ydym yno, prin yw'r rheolaeth sydd gennym dros ein sefyllfa ac mae'r profiad yn medru peri dryswch a phenbleth, yn enwedig os byddwn yn teithio trwy ranbarthau amser gwahanol. Go brin bod neb am aros mewn maes awyr yn fwy nag sydd raid, ond mae bod yno yn gwbl angenrheidiol os ydym am symud o un lle i'r llall. Ai felly yw ein cyfnod ninnau, cyfnod trothwyol wrth i ni ffarwelio ag un drefn tra'n disgwyl am drefn newydd?

Yn sicr, mae'r holl ansicrwydd cyfundrefnol yn galw arnom i ddyfnhau ein hymwybyddiaeth o arweiniad a phresenoldeb Duw gan ddirnad ei ewyllys a dal ein gafael yn gadarn ynddo, gan wreiddio ein hunain o'r newydd yng ngwirioneddau'r Efyngyl wrth symud o un cyfnod i'r llall.

Boed inni gofleidio'r amser hwn gydag egni a chreadigrwydd gan ymddiried yn Nuw i ddarparu'r mesur helaethaf o gariad, gras a thrugaredd i'n gwroli ar hyd y daith.

Judith Morris  
Ysgrifennydd Cyffredinol  
Undeb Bedyddwyr Cymru



Llun gan Matt Maloney ar Stocksnap

## Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

A ninnau yn nhymor yr Adfent, fe fyddwn yn parhau â'r gyfres o fyfyrddodau o'r gyfrol *The Prince of Peace in a World of Wars* gan David Kerrigan.

### 7 Saint yn ceisio heddwch

**Hanna: heddwch gyda chalon ddolurus**

Darllen: 1 Samuel 1:1-8

Bob tro yr oedd Elcana'n offrymu, byddai'n rhannu darnau o'r offrmw i'w wraig Peninna ac i bob un o'i bechgyn a'i merched; ond un darn a roddai i Hanna, er mai hi a garai, am fod yr ARGLWYDD wedi atal iddi gael plant. (adn 4-5)

Buaswn wrth fy modd pe gallwn gyfarfod Hanna. Erei bod yn rhwystredig am nadoedd ganddi blant, gwyddai fod ei gŵr, Elcana, yn ei charu. Ond teimlai'n glwyfedig oherwydd pryfocio gwraig arall Elcana, Pennina. (Nid dyma'r lle i drafod 'golwg Feiblaidd draddodiadol o briodas', ond mae'n amlwg fod angen pwyll wrth ddefnyddio'r ymadrodd yma!) Mae'r ysgrifennwr yn syml yn derbyn diwinyddiaeth ddiodyn y cyfnod, 'fod yr Arglwydd wedi atal iddi gael plant' (adn 6), a dyma fuasai cred Hanna hefyd.

Dywedir wrthym fod Hanna mewn trallod yn y deml: iddi weddio ac wylo'n hallt (adn 10). Pan welodd Eli, yr offeiriad, hi gyntaf, fe gamdeallodd y sefyllfa a chredu ei bod yn feddw. Ond yna fe'i bendithiodd a dweud wrthi am ymadael mewn heddwch. Ymhen amser byr, neu felly yr ymddengys, atebwyd ei gweddïau a bu i Hanna feichiogi, a ganwyd ei mab Samuel. Ymhen amser byddai Samuel yn dod yn un o wŷr mawr Duw.

Fel mewn llawer o straeon Beiblaidd, cofnodir y digwyddiadau yma oherwydd eu bod yn cynrychioli datblygiadau allweddol ym mywyd pobl Dduw ac oherwydd eu bod yn aml yn amlygu'r gwirionedd fod Duw yn ateb gweddïau; yn wir, does dim yn amhosibl gyda Duw. Mae angen inni fod yn gyfarwydd â'r gwersi yma, a thrwy'r weithred o gredu, mae ein ffydd yn cael ei hymestyn a gallwn anelu at bethau mawr yn enw Duw.


Ond cyn i ni gadw stori Hanna a'i ffeilio o dan 'gweddïau mawr a atebwyd gan Dduw', nodwn fod cannoedd eraill tebyg i Hanna nas atebwyd eu gweddïau. P'un ai gweddïau dros gymar neu fabi, dros un afradlon neu dros wellhad, nid oes prinder o weddïau a lefarwyd ac sy'n ymddangos fel pe na baent wedi derbyn ateb. Gall fod yn demtasiwn felly i droi oddi wrth Hanna, gan gredu nad oes ganddi hi unrhyw beth i'w ddweud wrth y rhai sydd a'u gweddïau fel petaent heb eu clywed.

Ond hoffwn ddarllen rhwng y llinellau, a mynd yn ôl i holi beth wyddom ni am Hanna yn y blynyddoedd cyn iddi gael ateb i'w gweddi. Cawn arwydd yn 1 Samuel 1:7, wrth ddarllen 'Dyma a ddigwyddai bob blwyddyn pan âi i fyny i dŷ'r ARGLWYDD; byddai'n [Peninna] ei phoenydio a hithau'n [Hanna] wylo a gwrthod bwyta'. Fe welwn mai anghywir fyddai ystyried Hanna yn syml, fel un â phroblem ganddi a Duw yn ateb ei gweddi. Yn wir, wnaeth Duw ddim ateb ei gweddi am flynyddoedd lawer, ac er hyn roedd Hanna yn parhau i geisio presenoldeb Duw. Ar waethaf cywilyddio parhaus Pennina, y wraig arall, wrthwynebus, roedd yn parhau i fynd i'r deml. Ac ar waethaf cariad gŵr ymroddedig, roedd yn wylo'n hallt.

Fel gweinidog, does dim anos nag wynebu rhywun sydd yn brwydro â phroblem sy'n achosi poen calon dwfn a pharhaus iddynt heb fod yn gallu gwneud na dweud dim a fydd o gymorth. Dyma ein hagwedd gan amlaf tuag at fywyd – dangoswch chi'r broblem ac fe wnawn ninnau y cwbl a allwn ni i'w datrys. Ac os na allwn ni ei datrys, fe rown wybod i chi am rywun sy'n medru. Rydym yn byw mewn oes o allu datrys y mwyafrif o bethau, ac fe fyddwn yn flin a rhwystredig pan na fedrwn wneud hynny. Yn y pen draw ni allwn atal corwyntoedd rhag dinistrio ynnysoedd na daearynfeydd rhag difrodi pentrefi. Ni allwn wella pob cancr, nac atal y dirywiad a ddaw yn sgil clefydau fel clefyd Parkinson neu Alzheimer. Mewn byd lle gallwn gyflawni cymaint rydym yn gynddeiriog am y pethau na allwn eu cywiro neu eu gwella, ac yn y cynddeiriogi yna, fe allwn golli unrhyw rith o heddwch.

Gwelsom yn agos i ddechrau ein hastudiaethau mai heddwch ei bresenoldeb oedd yr heddwch yr oedd Iesu'n ei addo. Gallwn feithrin y presenoldeb yma trwy aros yn agos at Dduw, at bobl Dduw ac at eglwys Dduw, nid oherwydd mai dim ond yn ein heglwysi y mae Duw i'w ganfod ond oherwydd fod presenoldeb a gofal cariadus Duw yn cael eu dysgu a'u pwysleisio yno dro ar ôl tro. Rydym angen clywed hyn yn aml, ac wrth ei glywed rydym yn addoli fel cymuned.

Os ydych chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod yn dioddef gyda chalon ddolurus, mae'n iawn wylo. Mae'n iawn dweud na allaf hyd yn oed fwyta am gyfnod, fel y gwnaeth Hanna. Mae'n iawn



dweud ein bod yn teimlo'n ddigalon neu'n ddi-rym, achos nid yw heddwch Duw bob amser yn golygu dileu'r pethau yma. Mae hyd yn oed yn iawn galaru am y pethau yma er bod gennyh riant, priod neu ffrind sydd â gofal drosoch. Nid yw bod mewn heddwch yn golygu gwadu bod yna adegau pan fyddwn yn teimlo'n gynddeiriog am bopeth rydym yn ei gasáu am ein hamgylchiadau. Mae Duw yn ddigon mawr i gymryd ein poen a'n dicter – hyd yn oed pan maen nhw wedi'u hanelu ato fo – oherwydd mae yntau hefyd wedi eu profi. Daeth i mewn i'n byd ni; profodd y galar o glywed am ddiennyddiad ei gefnder Ioan, am farwolaeth Lasarus, fod ei ddisgyblion wedi syrthio i gysgu a bod ei Dad wedi ei adael. Dioddefodd y groes a'i phoen anhraethadwy, yn ogystal â'r profiad o edrych i lawr ar wyneb ei fam Mair wrth iddi hi ei wylio'n hongian yno.

Ac os mai chi yw'r un sy'n gofalu, yn caru, yr un a roddai unrhyw beth i leddfu poen calon yr un sydd dan eich gofal, mae'n rhaid i chithau dderbyn nad eich gwrthod chi y mae eu poen ond yn hytrach yn gwrthod yr hyn sy'n bygwth eu llethu.

Buaswn wrth fy modd yn cyfarfod Hanna, nid er mwyn medru gofyn iddi sut brofiad oedd sylweddoli ei bod yn feichiogi; bron y gallaf ddychmygu gorfoledd y funud honno. Yn hytrach, hoffwn ei holi am ei pherthynas â Duw yn y blynyddoedd blaenorol. Allaf i ddim credu ei bod hi'n *teimlo'n* heddychlon bob amser – ymhell o hynny. Ond fe wyddai rywbeth am bresenoldeb Duw, a wnaeth hi ddim ei wrthod oherwydd na allai feichiogi. Beth broffod hi, felly? Beth wnaeth hi ei ddarganfod am Dduw yn y dyddiau dolurus yna? Dyna hoffwn i ei wybod.



## Cymru a'r eglwysi yn codi eu llais yn COP26

*Ym Mwletin Polisi Cytûn, mis Rhagfyr, ceir adroddiad a lluniau gan Gethin Rhys, Swyddog Polisi Cytûn, fu yng nghynhadledd COP 26 yn Glasgow*

Ar adegau, roedd cynhadledd hinsawdd fyd-eang COP26 yn teimlo fel gwyl grefyddol. Roedd nifer o eglwysi dinas Glasgow wedi croesawu mudiadau megis aelodau Cytûn, Cymorth Cristnogol, CAFOD ac ARocha UK i sefydlu gofod swyddfa ar gyfer y trafodaethau, lle i gynnal digwyddiadau cyhoeddus a man



i'r cyhoedd addoli a gweddio wrth i'r trafodaethau fynd yn eu blaen. Doedd dim amheuaeth nad oedd miloedd o bobl o bob rhan o'r byd yn credu mai trafod Cread Duw oedd y gynhadledd, ac nid yn unig faterion gwyddonol, economaidd a gwleidyddol.

Yn y llun dangosir stondin Sul yr Hinsawdd ynghyd â'n cymdogion o Weriniaeth Palau, ynysoedd yn y Môr Tawel sydd ymhlith y gwledydd sy'n dioddef waethaf eisoes o ganlyniad i'r argyfwng hinsawdd. Yn wir, yn y trafodaethau swyddogol ar 2 Tachwedd, fe [ddywedodd](#) eu Harlywydd, Surangel Whipps Jr, 'Nid oes dim urddas mewn marwolaeth araf a phoenus. 'Run man i chi fomio ein hynysoedd yn hytrach na gwneud i ni ddiodeff a gwyllo ein tranc araf.' Ac eto, bu cynrychiolwyr yr ynysoedd hyn - y mwyafrif llethol yn Gristnogion - yn gymdogion llawen ac urddasol i ni yn y neuadd arddangos.

Wrth gloi'r adroddiad o Glasgow mae Gethin Rhys yn annog yr eglwysi i gadw'r momentwm a'r diddordeb o blaid materion yr amgylchedd ac i wneud y canlynol:

- parhau i ddefnyddio adnoddau rhagorol Sul yr Hinsawdd a gwahodd eglwysi eraill o bob enwad i gydweithio ar gyfer gweddi, cefnogaeth ac annog eich gilydd;
- cofrestru ar gyfer cynllun [Eco-Eglwys](#). A fedrai Eco-eglwys fod yn brosiect Adfent i'ch eglwys eleni? A gallech anelu at ennill y wobr Efydd erbyn Sul y Cread fis Medi nesaf.

Mae Sul yr Hinsawdd yn [cymell ei gefnogyd](#) i wneud tri pheth dros yr wythnosau nesaf:

- anfon neu lofnodi [cerdyn Nadolig Clymblaid yr Hinsawdd](#) at Boris Johnson AS;
- [ysgrifennu at eich AS yn San Steffan](#) yn gofyn iddo/iddi weithredu i 'gadw 1.5 gradd yn fyw'.
- cofrestru ar gyfer gweminar [Sul yr hinsawdd - Beth Nesaf](#) ar 20 Ionawr am 7yh.

### PA DDYFODOL I ADEILADAU EGLWYSIG CYMRU?

Dyna'r Cwestiwn mawr a ofynnir wedi Covid mewn cornel fach yn y *Bwletin!* Tynnir sylw yno at nifer o drafodaethau sy'n digwydd ar hyn o bryd am ddyfodol ein lleoliadau cymunedol. Un peth y gallwn ni i gyd ei wneud yw cwblhau [Arolwg Cymraeg gan Fywyddau Creadigol](#) am y cwestiynau sy'n wynebu grwpiau creadigol a lleoliadau wedi Covid - llawer o'r lleoliadau hynny'n addoldai neu'n neuaddau cymunedol eglwysig. Mae'r arolwg yn cau ar 17 Rhagfyr.

*I ddarllen yr adroddiadau o Glasgow, am fanylion ehangu rhaglen weithredu llywodraeth Cymru a hynt y Cwriclwm newydd i Gymru a'r Bwletin yn llawn ewch i: [Bwletin Polisi Rhagfyr 2021 - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru | Churches Together in Wales \(cytun.co.uk\)](#)*

## Cofio'r Parchedig Maldwyn John

Ganwyd Maldwyn yn Nhyddewi, sir Benfro. Yn un o chwech o blant, derbyniodd ei addysg gynradd yn ysgol y pentref. Fel yr oedd y drefn yr adeg honno, gadawodd yr ysgol yn 14 oed ac aeth i weithio ar fferm ei ewythr.

Roedd ei deulu'n aelodau ffyddlon yng nghapel y Tabernacl, capel Presbyteriaidd Cymraeg yn y pentref. Roedd gan Maldwyn a'i frawd Dewi leisiau canu da ac ymunodd y ddau â chôr yr Eglwys Gadeiriol. Teg yw dweud nad oedd y blaenoriaid yn gwbl gefnogol!

Daeth Maldwyn yn Gristion ymroddedig yn ddydd ifanc yn Nhyddewi a bu'n driw i'w ffydd weddill ei oes. Credir iddo ddod yn Gristion mewn oedfa dan arweiniad yr Efengylwr Idris Davies, Rhydaman.

Yn ddiweddarach, ymunodd â'i frawd yn Birmingham, lle roedd digon o waith argael.

Yno, ymunodd â Byddin yr Iachawdwriaeth gan ei bod yn agosach iddo na theithio i gapeli Cymreig y Presbyteriaid yn yr ardal. Bu ganddo gryn dipyn o feddwl o Fyddin yr Iachawdwriaeth hyd ddiwedd ei oes.

Tra oedd yn Birmingham penderfynodd fynychu Coleg Beiblaidd yn Lynton & Lynmouth. Clywodd ei weinidog yn Nhyddewi am hyn, a'i annog i fynd i'r weinidogaeth Gristnogol. Astudiodd yng Ngholeg Trefeca a Choleg Diwinyddol, Aberystwyth, gan gwblhau ei hyfforddiant bugeiliol ymarferol yn Llwynhendy, Llanelli.

Yn dilyn ei ordeinio ym 1961, derbyniodd Maldwyn alwad i fugeilio mewn gofalaeth o dri chapel yn Nant-y-moel, Cwm Ogwr. Ym 1968, priododd ag Audrey, a derbyn galwad i fugeilio gofalaeth o dri chapel yn Rhymni yng nghymoedd Gwent. Bendithiodd Duw'r briodas â dau o feibion, sef Geraint ac Emyr.

Capeli Jerwsalem, Pen-y-groes, Cefnberach a Llanlluan oedd ei ofalaeth olaf. Bu i Maldwyn ymdeol yn 2000, ond roedd yn dal i bregethu'n aml tan y ddiweddar. Pregethodd ei bregeth olaf ar

8 Mawrth 2020, y Sul olaf cyn y clo mawr, a chododd ei destun o Hebreaid 13: 8.

Pregethu a gwasanaethu Duw oedd angerdd ei fywyd, a gallai wir ddweud ynghyd â'r emynydd Evan Richards:

Yn dy waith y mae fy mywyd,  
yn dy waith y mae fy hedd,  
yn dy waith yr wyf am aros  
tra bwy'r ochor hon i'r bedd;  
yn dy ar waith ôl mynd adref  
drwy gystuddiau rif y gwllith:  
moli'r Oen fu ar Galfaria -  
dyma waith na dderfydd byth.

Bu farw Maldwyn ar 25 Awst 2021. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod, Audrey, ei feibion Geraint ac Emyr a'u teuluoedd, a chyflwynwn hwy i'r Arglwydd yn ein gweddïau.

Cynhaliwyd ei angladd ddydd Llun, 6 Medi, yng Nghapel Gorffwys Bwtrimawr, Betws, Rhydaman, dan ofal y Parch Arnallt Morgan. Diolchwn i Dduw am Maldwyn ac am ei wasanaeth i'w Arglwydd.

*Parch Arnallt Morgan*

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Caneuon gras, caneuon mawl

Fi a ni

Salm 80:1–7 Mawl

### Cyflwyniad

Diraddiol iawn o wragedd oedd awdur Ecclesiasticus (llyfr sydd wedi ei gynnwys yn yr Apocryffa). Meddai, 'Oherwydd o ddillad y daw pryf, ac o wraig ddrigioni gwraig. Gwell yw drygioni dyn na gwraig dda ei gweithredoedd nad yw ond yn pentyrru gwarth ar waradwydd.' (42:12–14)

Pwy felly mewn cymdeithas batriarchaidd, gaeth fyddai'n dewis gosod merch ifanc yng nghanol y stori? Ac eto, onid dyna'n union a wnaeth yr Arglwydd wrth osod Elisabeth a Mair ar ganol hanes y geni? Ac onid oedd yn rhyfeddol bod yr Arglwydd wedi dewis gwagedd, ymhen y rhawg, fel y tystion cyntaf i'w atgyfodiad?

### Darlenniad 1

#### Micha 5:2–5 Addewid Duw

Wrth iddo graffu drwy niwloedd amser, rhagwelodd Micha 'amser esgor yr un feichiog'. Ar ganol hanes iachawdwriaeth mae genediggaeth.

Ar ganol hanes iachawdwriaeth hefyd, meddai, mae tref fechan, ddibwys i olwg y byd. Ond yn ôl amcanion Duw roedd i Fethlehem Efrata ran ganolog yn yr hyn a gâi ei ddatguddio. Rhagwelai Micha ddyfodiad 'Un' o darddiad tragwyddol i fyd o amser. Byddai'r un yma yn 'dod allan i mi'. Byddai'r un a gâi ei eni yn llywodraethwr yn Israel, yn dychwel ei bobl, yn arwain praid Duw, yn eu tywys mewn diogelwch i ddiogelwch ac i heddwch. Byddai nerth a mawredd yr Arglwydd Dduw ar waith drwyddo.

Credwn ni fod y geiriau yma wedi eu gwireddu trwy Fair, trwy enediggaeth Iesu Grist, y Bugail da.

### Gweddi

Arglwydd Dduw, diolchwn i ti dy fod wedi caniatáu i broffwydi dystio i ysblander Iesu Grist cyn ei ddyfodiad. Diolchwn am y rhai a ddeallodd 'nad arnynt eu hunain ond arnom ni yr oeddent yn gweini wrth sôn am bethau ... y mae angyllion yn chwennych edrych arnynt'. Dyro i ninnau'r ddawn, drwy nerth yr Ysbryd Glân, i dderbyn o'u gwasanaeth ffyddlon, i ddilyn cyfarwyddyd eu neges fel y gallwn adnabod rhyfeddod yr iachawdwriaeth y bu 'ymofyn ac ymorol amdani'.

Emyn 432 'O f'enaidd, cân'

Darlenniad 2

#### Luc 1:46–55 Cân Mair

Aeth canrifoedd heibio rhwng gweledigaeth Micha a genediggaeth Iesu Grist. Ond ni newidiwyd bwriadau'r Arglwydd i ddod ei hun, yn ei Fab, i fod yn Waredwr i'r byd.

Dychmygwch y Forwyn Fair yn clywed am y tro cyntaf ei bod wedi ei ffafrio gan yr Hollalluog i fod yn fam i Waredwr y byd. Bwriwyd hi i ddychryn (a Joseff hefyd!). Ond drwy ffydd yng ngair rhyfeddol yr Arglwydd drwy'r angel, mynegodd Mair a Joseff, drwy eu dewisiadau a'u hufudd-dod, eu ffydd yng ngair Duw a'i addewid. Prin roedden nhw'n deall ar y pryd beth fyddai effaith croesawu 'ffafrio yr Arglwydd'. Ond mewn gostyngedd ffydd deallodd Mair y deuai heiliau i'w rhan ochr yn ochr â'i braint. Tra oedd yng nghwmni Elisabeth, mam Ioan (Fedyddiwr), torrodd allan i ganu. Wedi'r cyfan, mawl yw mynegiant ffydd.

Pan edrychwn ar yr adnodau fe welwn fod dwy ran amlwg i'w gân gywain sydd heb fod yn adleisio mawl y Salmu neu weddi Hannah wrth gysegru'r proffwyd/farnwr Samuel (1 Samuel 2:1–10).

#### Rhan 1 Cân Mair (adn 46–9)

Pan edrychwn ar yr hyn sy'n cael ei fynegi gan Fair, gwelwn ar unwaith ei bod yn rhyfeddu at ymwneud yr Hollalluog â hi'n bersonol.

O graffu'n fanylach ar batrwm adn 46–9 gwelwn fod Mair yn dechrau ei gân mewn mawl (mae'n 'mawrygu' Duw, adn 46) gan orfoleddu yn ei iachawdwriaeth (adn 47). Mae'n synnu bod gan yr Arglwydd le i'r un *distadl* (adn 48). Dyma'r un sy'n cael ei *dyrchafu* ganddo i gyflwr 'gwynfydedig' (adn 48). Yna, fe ddychwel y gân i ganmol iachawdwriaeth Duw, cyn diweddu drachefn mewn mawl (adn 49).

Onid dyma batrwm ffydd pob credadun a phatrwm gweddi ddiolchgar pob un a brofodd ddaioni'r Arglwydd?

#### Rhan 2 Cân y gymuned (adn 50–6)

Yn y rhan hon o'i gân mae Mair yn sylweddoli ac yn cyhoeddi nad profiad unigolyddol mo'i phrofiad o ras.

Ac yn yr un modd, nid yw profiad 'personol' y Cristion byth yn brofiad 'preifat' iddyn nhw eu hunain. Balchder o'r mwyaf fyddai tybied hynny. Na, mae Mair am ddatgan

bod ein profiad o ras yn perthyn i fwriadau tragwyddol Duw, bwriadau sydd wedi cyffwrdd â byd amser. Mae ei fwriadau grasol yn eirwir ac yn ddibynadwy. Cafodd ei seilio ar ei 'gyfamod' sy'n cynnwys disgynyddion Abraham drwy'r holl fyd (gweler Galatiaid 3:7–9).

Os oedd Rhan 1 â 'mawl' yn ddechrau ac yn ddiwedd iddi, mae Rhan 2 yn rhyfeddu at y 'trugaredd' sydd ynghlwm â gweithrediad iachawdwriaeth Duw. Cyhoeddir i ddechrau *drugaredd* Duw i bawb sy'n ei ofni (adn 50). Mae ei weithredoedd *gwaredigol* hefyd yn gondemniad ar falchder dynol (adn 51). Ond i'r *gostyngedig* mae dyrchafiad. I'r dyrchafedig mae *darostyngiad* (adn 52–3). *Gwareddod* Israel – gweithred oedd yn gondemniad o'i hanufudd-dod ac yn weithred achubol yr un pryd (adn 54). O *drugaredd* Duw ei hun, drwy ei *gyfamod*, y tardda'r gobaiht hwn i gyd (adn 55).

Mor anodd yw hi i bobl falch werthfawrogi patrwm gweithredoedd Duw. Yn nheyrnas nef yr isel a ddyrchefir, y newynog a lenwir, tra diorseddwr y beilchion. Mor dramgwyddus yw ei neges i ninnau. Man cychwyn profiad o ras yw sylweddoliad o angen. Golyga ein bod yn cyffesu ein tloidi, ein hangen; golyga gyfaddef nad yw ein meddyliau dyfnaf o angenrheidrwydd yn 'wirionedd' diogel. Golyga ein bod yn cydnabod ein bod ar goll fel unigolion, ac fel hil. Golyga ein bod yn sylweddoli mai i berthyn i weithred iachusol Duw y cawsom ein gwahodd yn Iesu Grist. Cawn ein gwahodd wrth blygu i'w Arglwyddiaeth i uniaethu ein stori ni â bywyd Iesu, ei groes a'i atgyfodiad, ei esgyniad, a'i ddyrchafiad ymerodrol. Derbyniwn rym y 'cyfamod newydd yn fy ngwaed'. Ffydd yw **plygu**, ymostwng, derbyn ei Arglwyddiaeth. Ffydd yw **dewis ymostwng** iddo, i'w ffyrdd ac i batrwm ei gerddediad ar y ddaear. I'r Cristion, yng nghanol pob dyrchafiad ceir croes, ac yng nghanol pob darostyngiad ceir dyrchafiad.

### Gweddi

Arglwydd Dduw, fel y llamodd Ioan yng nghroth ei fam ar ddyfodiad Iesu, caniatâ i ninnau heddiw lamu mewn llawenydd wrth gofio am dy ddyfodiad atom ninnau. Tywallta arnom, ar drothwy'r Nadolig hwn, dy Ysbryd Glân, fel y cawn dy groesawu, gan wahodd y byd yn grwn i lawenhau mewn addoliad: 'O deuoch ac addolwn, Grist o'r nef'. Amen.

Emyn 437 'Y bore hwn'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [hww@cennad.cymru](mailto:hww@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.instagram.com/CennadCymru)